

# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 18fed o Chwefror 2019 am 7:00pm

Presennol: Cyngorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cyngorwyr: Arwel Pierce, Alan H. Jones, Bethan Lawton, Simon Jones

1. Ymddiheuriadau: Cyngorydd Griffith Evan Thomas

Mynegodd y Cadeirydd gydymdeimlad ar ran y Cyngor gyda'r Cyngorydd Bethan Lawton a'r teulu ar golli ei mam yng nghyfraith.

2. Datgan diddordeb: Ni fu i'r un Cyngorydd ddatgan buddiant.

3. Derbyn cofnodion 21 Ionawr 2019:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

4. Derbyn cofnodion 5 Chwefror 2019:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir, gyda chywiriad i enwau dau o gynrychiolwyr y Ganolfan.

5. Zurich - Yswiriant 2019/2020:

**PENDERFYNIAD:** Y Clerc i drafod manylion yr hyn sydd wedi ei gynnwys ym mholisi'r cyngor gyda Zurich, gan:  
newid manylion yr hysbysfwrdd a'r gwerth  
cynyddu gwerth y pontydd i £40,000, gan ofyn am fanylion y sicrwydd  
cynnwys cysgodfeydd bws gwerth £5,000  
cynnwys offer chwarae yn y cae chwarae  
gofyn am gyngor parthed cynnwys y peiriant talu ac arddangos

6. Un Llais Cymru - Aelodaeth 2019/2020:

**PENDERFYNIAD:** I barhau gyda'r aelodaeth yn 2019/2020.

7. Cyfrifon i'w talu:

B Gwilym	Cyflog	101641	£178.62
Cyllid a Thollau	Yswiriant Gwladol	101642	£44.60
Y Ganolfan	Llogi Ystafell	101644	£126.00

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau.

8. Cyngor Gwynedd - Adran Amgylchedd -Arwydd ger Cil y Coed:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth, sef bod gosod arwydd ger Cil y Coed ar y raglen waith.

9. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cynllun Datblygu Lleol Eryri Diwygiedig: Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.  
I roi copi o'r llythyr ar yr hysbysfwrdd.  
Y Clerc i anfon ddolen at yr adroddiad i'r Cyngorwyr

10. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cynllun Datblygu Lleol Eryri Diwygiedig: Mabwysiadu:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.  
I roi copi o'r llythyr ar yr hysbysfwrdd.  
Y Clerc i anfon ddolen at yr adroddiad i'r Cyngorwyr

11. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio - Yr Hen Ysgol, Brynchrug, LL36 9PR (NP5/55/3B):

**PENDERFYNIAD:** Dim sylw.

12. Elusen Ambiwlans Awyr Cymru - Gwahoddiad i swyddfa newydd Ambiwlans Awyr Cymru:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

13. Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru - Diwygiad i'r Cynllun Heddlu a Throsedd 2020/2021:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.  
Y Clerc i anfon ddolen at yr adroddiad i'r Cynghorwyr

14. Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru - Cyngerdd Elusennol yn y Gadeirlan ym Mangor:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

15. Egni Co-op - Chwilio am doeon yng Nghymru i gynhyrchu ynni solar:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

16. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:

- 6 polyn wedi torri ar derfyn y cae chwarae - yn gyfrifoldeb Cyngor Cymuned Brynchrug
- Rhwystrau o amgylch y cae pêl-droed wedi pydru, perygl iddynt ddisgyn sydd yn risg iechyd a diogelwch

**PENDERFYNIAD:** Y Clerc i gysylltu gyda'r contractwr Jones & Jones er mwyn atgyweirio'r pyst sydd yn gyfrifoldeb i'r Cyngor.  
I roi cyfnod o 3 wythnos i'r Clwb Pêl-droed atgyweirio neu ddymchwel y pyst sydd wedi pydru, er mwyn sicrhau diogelwch defnyddwyr y cae chwarae. I edrych am manylion y cytundeb wnaethpwyd gyda'r Clwb Pêl-droed parthed cynnal a chadw offer.

17. Cae Chwarae - dyfynbris torri gwair:

Yr oedd dyfynbris wedi ei dderbyn gan J.K.Jones Landscapers.

**PENDERFYNIAD:** I ddyrannu contract i J.K.Jones Landscapers am y flwyddyn 2019/2020.

18. Clwb Ieuenctid Brynchrug:

Adroddwyd bod gorïad ar gyfer y cwpwrdd sydd yn cynnwys offer y clwb ieuenctid gan Gadeirydd y Ganolfan.

**PENDERFYNIAD:** Y Clerc i gysylltu gyda Chadeirydd y Ganolfan er mwyn trefnu i gael mynediad i'r cwpwrdd.  
Gan mai cofrestru y bydd prif weithgaredd y clwb ar y noson gyntaf, penderfynwyd i beidio codi £1 fel ffi mynychu.  
I sefydlu trefn a dealltwriaeth gyda'r Urdd o ran disgyblu a gwahardd unrhyw un sydd yn camymddwyn, gan ddatblygu polisi a chod ymddygiad, fydd hefyd yn manylu cyfrifoldeb pwy sydd yn talu am ddifrod yn y Ganolfan.

19. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Adroddwyd y canlynol:

- Yr oedd Cyngor Gwynedd yn ystyried codi'r dreth 5.5% ond nid oedd penderfyniad wedi ei wneud.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth parthed y dreth.  
I ddiolch i'r Cynghorydd Sir am ei gwaith caled ac am sicrhau bod peiriant ysgubo'r ffordd wedi ymweld â Brynchrug.

20. Cwyn gan Aelod o'r cyhoedd ynglŷn â diffyg gweithredu honedig gan Gyngor Cymuned Bryncrug:

**PENDERFYNIAD:**

I ddiolch i'r aelod o'r cyhoedd am gyflwyno'r gŵyn, gan ymateb yn egluro bod y Cyngor wedi edrych mewn i fanylion y gŵyn, cynnwys llythyr y derbyniwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar Awst 25ain, 2016 ac bod y Cyngor o'r farn ei fod wedi gwneud y cwbl yr oedd yn rhaid ei wneud o safbwynt y Cynllun Datblygu Lleol a'r Galwad Agored am Safleoedd Posib.

I anfon copi o'r llythyr dyddiedig 25 Awst 2016 a dderbyniwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri at yr achwynydd.

I adael y mater ar y bwrdd.

21. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Adroddodd bod llythyr wedi ei dderbyn gan Barclays yn cyhoeddi ei benderfyniad i gau cangen Tywyn ym mis Mehefin 2019.

**PENDERFYNIAD:**

I ysgrifennu at Barclays gan ofyn i'r banc ail-ystyried, gan fynegi profiad nifer sydd eisoes yn defnyddio cangen Dolgellau ar brydiau ac yn gorfod aros yn hir i dderbyn gwasanaeth. Gofyn Barclays os nad ydynt am gadw'r gangen ar agor, i gadw'r gangen tan mis Medi er mwyn rhoi amser i'w cwsmeriaid neud trefniadau eraill ac er mwyn cau y gangen ar ôl cyfnod prysur yr haf.

I ysgrifennu at Liz Saville Roberts AS er mwyn mynegi pryderon y Cyngor bod yr ardal yn cael ei amddifadu o wasanaeth arall.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:30pm

Llofnod y Cadeirydd .....